

Contractau ynni cwsmeriaid busnes

Taflen ffeithiau 104 21.07.11

www.ofgem.gov.uk

Mae'n hollbwysig eich bod yn deall eich contract os ydych am reoli eich biliau ynni. Mae'r awgrymiadau isod yn berthnasol i bob busnes ac yn seiliedig ar reolau presennol y farchnad ynni. Yn dilyn ein hymchwiliad diweddaraf i'r farchnad fanwerthu, rydym hefyd yn ystyried a oes angen rhagor o ddiogelwch ar fusnesau.

► Sicrhau bod gennych gopi o'ch contract

Os ydych yn gwsmer microfusnes*, mae rheolau a gyflwynwyd gan y rheoleiddiwr ynni Ofgem, yn golygu bod yn rhaid i'ch cyflenwr anfon copi o delerau ac amodau'r contract atoch ar ôl i chi gytuno ar drefniant newydd. Os yw eich cwmni'n fwy na microfusnes, mae Ofgem yn disgwyl o hyd bod eich cyflenwr yn sicrhau y gallwch weld copi o'r telerau ac amodau.

Pan gewch gopi o'ch contract, gwnewch yn siŵr eich bod yn darllen drwyddo'n ofalus. Gwnewch yn siŵr hefyd eich bod yn darllen drwy'r holl filiau, llythyrau a gwybodaeth bwysig arall y mae eich cyflenwr yn eu hanfon atoch.

► Gwybod dyddiad eich contract

Mae'n hollbwysig sicrhau eich bod yn gwybod dyddiad dechrau eich contract a'r dyddiad pan ddaw i ben. Yn arbennig, dylech nodi dyddiadau'r cyfnod o rybudd rhag ofn y byddwch yn

penderfynu newid eich cyflenwr neu aros gydag ef. Os nad oes gennych y wybodaeth hon, cysylltwch â'ch cyflenwr.

*diffinnir microfusnes fel cwmni:

- sy'n defnyddio llai na 55,000 kWh o drydan y flwyddyn, neu
- sy'n defnyddio llai na 200,000 kWh o nwy y flwyddyn, neu
- sy'n cyflogi llai na deg o bobl (neu gyfwerth ag amser llawn), a

- sydd â throsiant blynyddol neu fantolen flynyddol nad yw'n fwy na €2m.

Dim ond un o'r meini prawf hyn y bydd angen i fusnes ei fodloni er mwyn bod yn gwsmer microfusnes.

► Nodi'r gwahaniaeth rhwng y cyfnod adnewyddu a'r cyfnod o rybudd ar gcontract tymor penodol

Mae llawer o gcontractau preswyl yn gadael i chi newid cyflenwr yn hawdd unrhyw bryd yn ystod y flwyddyn ar yr amod eich bod yn rhoi cyfnod byr o rybudd. Ond peidiwch â thybio bod yr un telerau ac amodau'n berthnasol i gcontract eich busnes, gan fod llawer o fusnesau ar gynigion tymor penodol. Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod rhwng pa ddyddiadau y gallwch hysbysu eich cyflenwr eich bod am gytuno ar drefniant newydd, neu os ydych am newid cyflenwr ar ddiwedd y contract.

Os ydych yn gwsmer microfusnes, bydd eich cyflenwr yn cysylltu â chi yn nodi manylion ei gynnis tymor penodol newydd o leiaf 60 diwrnod cyn i'ch contract ddod i ben. Bydd gennych o leiaf 30 diwrnod ar ôl cael y llythyr hwn i gysylltu â'ch cyflenwr a rhoi gwybod iddo:

- os ydych am gytuno ar ei gynnis newydd, neu
- os ydych am newid i gyflenwr newydd pan ddaw eich trefniant i ben.

► Deall yr hyn a fydd yn digwydd os na fyddwch yn newid cyflenwr neu'n cytuno ar drefniant tymor penodol

Pan gewch eich llythyr adnewyddu, gwnewch yn siŵr eich bod yn deall y telerau ac amodau'n llawn. Bydd yn nodi'r hyn a fydd yn digwydd os na fyddwch yn cysylltu â'ch cyflenwr i gytuno ar ei gynnis, gwneud trefniant newydd, neu'n rhoi gwybod iddo os ydych am newid cyflenwr.

Os ydych yn ficrofusnes, gallai eich cyflenwr ymestyn eich contract am hyd at flwyddyn. Gallai hefyd godi'r cyfraddau neu newid y telerau.

Os yw eich cwmni'n fwy na microfusnes, bydd angen i chi gadarnhau'r hyn y mae eich contract yn ei ddweud am adnewyddu - oherwydd gallai eich cyflenwr ymestyn eich contract am fwy na blwyddyn.

Cofiwch y gallai fod angen i chi roi cyfnod o rybudd ar ddiwedd eich contract os ydych am newid cyflenwr.

Os yw eich cwmni'n fwy na microfusnes, nad yw Ofgem wedi nodi unrhyw reolau er mwyn i gyflenwr eich hysbysu o'ch opsiynau pan ddaw trefniant tymor penodol i ben. Bydd angen i chi ddarllen eich contract neu gysylltu â'ch cyflenwr am ragor o wybodaeth.

Os gwnaethoch newid cyflenwr cyn i'ch trefniant presennol ddechrau, peidiwch â chymryd yn ganiataol y bydd y cyfnod o rybudd a'r cyfnod adnewyddu gyda'ch cyflenwr newydd yr un peth â'ch trefniant blaenorol. Os nad oes gennych wybodaeth am eich cyfnod o rybudd a'ch cyfnod adnewyddu, gofynnwch i'ch cyflenwr ei rhoi i chi.

Nid yw byth yn rhy gynnar i ddechrau meddwl am yr hyn rydych am ei wneud pan ddaw eich contract presennol i ben. Os daw eich contract i ben, bydd eich cyflenwr presennol yn parhau i ddarparu ynni i chi hyd nes y byddwch yn newid cyflenwr, ond efallai y byddwch yn destun cyfradd contract tybiedig neu gyfradd allan o gcontract a allai fod yn llawer uwch na'ch contract presennol.

Mae hyn yn berthnasol i ficrofusnesau a busnesau mwy felly bydd angen i chi ddarllen telerau ac amodau eich contract i weld sut mae hyn yn berthnasol i chi.